Taflen Ffeithiau ar Fudd-daliadau Tai a Threth y Cyngor

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r daflen ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch budd-daliadau tai a budd-dâl treth y cyngor. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu budd-daliadau tai a threth y cyngor yn ei ardal leol. I wneud hyn, rhaid i'r cyngor gweithio o fewn y gyfraith, y rheoliadau a chanllawiau perthnasol y llywodraeth. Os credwch nad yw'r cyngor wedi dilyn y gyfraith, y rheoliadau neu'r canllawiau, efallai y bydd yr Ombwdsmon yn gallu helpu gyda'ch cwyn.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yn gallu:

- edrych ar gwynion bod y Cyngor wedi methu rhoi gwybod ichi'n briodol am benderfyniad ynghylch budd-dâl neu eich hawl i apelio yn erbyn penderfyniad.
- cadarnhau bod y Cyngor wedi cymryd camau i adennill gordaliad budd-dâl gennych yn deg a thrwy ddilyn y rheolau.
- Ystyried materion fel oedi afresymol, methu cydnabod eich apêl, methu cadw cofnodion priodol, methu cyfathrebu'n briodol neu wneud camgymeriadau gyda'r taliadau.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- eich helpu i wneud hawliad.
- dweud wrth y Cyngor am gynyddu faint o fudd-dâl yr ydych yn ei dderbyn.
- dweud wrth y Cyngor am leihau faint o fudd-dâl sy'n ddyledus gennych.
- ymyrryd ym mhenderfyniad y Cyngor i ddwyn achos cyfreithiol yn eich erbyn am dwyll budd-daliadau.
- fel arfer, edrych ar gŵyn lle mae neu lle oedd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i'r Gwasanaeth Apêl Annibynnol.

Materion i gadw mewn cof

Mae gennych hawl i apelio'n gyfreithiol yn erbyn nifer o benderfyniadau ynghylch budd-daliadau tai a budd-dâl treth y cyngor. Os credwch fod y Cyngor yn anghywir yn gwrthod y budd-dâl ichi, os yw swm y budd-dâl yn anghywir neu os mai nid chi sy'n gyfrifol am ordaliad budd-dâl, dylech ysgrifennu at y Cyngor yn y lle cyntaf. Os nad yw'r mater yn cael ei ddatrys, bydd gennych efallai hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor at **Wasanaeth Apêl Annibynnol.** Gallwch eu ffonio ar **029 2066 2180**. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.appeals.service.gov.uk

Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am unrhyw fudd-dâl arall, h.y. cymhorthdal incwm, lwfans ceisio gwaith, lwfans byw i'r anabl, at **Ombwdsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd**. Gallwch eu ffonio ar **0345 015 4033**.
Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.Ombudsman.org.uk

Gwybodaeth bellach

Mae gan rai cynghorau Wasanaeth Hawliau Lles i'ch helpu gyda phob un o'r hawliadau am nawdd cymdeithasol, budd-daliadau a chredydau treth awdurdod lleol. Dylech gysylltu â'ch cyngor lleol i gael gwybod a ydyw'r gwasanaeth hwn ar gael yn eich ardal chi. Gallwch hefyd dderbyn cyngor annibynnol, di-dâl ar eich hawliau lles gan eich **Canolfan Cyngor ar Bopeth** leol, manylion yn www.citizensadvice.org.uk

Mae **Canolfan Gyfreithiol Caerdydd** yn rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar ystod o broblemau (gan gynnwys tai) i bobl sy'n byw a gweithio yn Ninas a Sir Caerdydd yn unig. Gallwch eu ffonio ar **029 20498117** neu fynd i'w gwefan yn www.lawcentres.org.uk . Mae Ffederasiwn y Canolfannau Cyfreithiol hefyd yn rhedeg llinell gymorth gyfreithiol gymunedol (ar gyfer Cymru a Lloegr) ar **0845 345 4345** neu drwy fynd i'r we yn www.communitylegaladvice.org.uk.

Mae gwybodaeth fwy manwl am fudd-daliadau tai a threth y cyngor ar gael yn www.direct.gov.uk

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.
Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ